Papur 7

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Julie James AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio

8 Mai 2024

Annwyl Huw a Julie

Effaith Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 (SATC23) ar allu awdurdodau lleol i gyflawni sero net erbyn 2030

Yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2024, nododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Cynghorydd Joanna Protheroe, Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Berfformiad Corfforaethol ac Adnoddau Cyngor Bro Morgannwg (y Pwyllgor Craffu) yn ymwneud ag effaith SATC23 ar allu awdurdodau lleol i gyrraedd sero net erbyn 2030.

Mae'r ohebiaeth yn awgrymu bod diffyg eglurder ynghylch pryd y disgwylir i'r sector tai cymdeithasol fodloni EPC A, ynghylch uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030, a sut mae'r rhain yn alinio ar gyfer awdurdodau lleol â stoc dai.

Cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am eglurhad o'r materion hyn.

Yn ei lythyr, mae'r Pwyllgor Craffu yn cyfeirio at newid yn y dyddiad targed o 2030 i 2034 i gartrefi'r sector cyhoeddus gyrraedd sero net ar ôl i'r Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) diweddaraf i gyrraedd y lefel EPC Effeithlonrwydd Ynni diweddaraf ar gyfer holl gartrefi'r sector cyhoeddus gael ei wthio yn ôl bedair blynedd o 2030 i 2034.

Ein dealltwriaeth ni yw mai cynnig gwreiddiol Llywodraeth Cymru oedd i'r holl dai cymdeithasol gyflawni EPC A erbyn 2033. Mae SATC23 yn nodi bod yn rhaid i bob cartref gyrraedd safon EPC C o leiaf erbyn 2030 a bod yn rhaid cyflawni EPC A, er nad yw'n nodi pryd.

1. A allwch chi egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i darged ar gyfer yr holl dai cymdeithasol i gyrraedd EPC A erbyn 2030, ac os felly, pryd? Os pennwyd targed ar gyfer 2030, a'i fod wedi'i ddiwygio ers hynny, a allwch egluro'r rhesymau am hyn?
2. A allwch egluro erbyn pryd rydych yn disgwyl i'r holl gartrefi cymdeithasol fod wedi cyflawni EPC A?

3. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith y safon ar gyfer effeithlonrwydd ynni ar allu awdurdodau lleol sydd â stoc dai i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030?

Hoffwn godi mater arall, a ddaeth i'r amlwg yn ystod trafodaethau cychwynnol ar y mater hwn. Mae'r cyflwyniad i SATC23 yn nodi:

> "Mae Senedd Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol presennol yn cyrraedd y safon newydd erbyn 2034 (gall elfennau yn Rhan 3 gael eu cyrraedd ar adegau gwahanol)."

Mae'r cyfeiriad at Senedd Cymru yn SATC23 yn amlwg yn gamgymeriad, o ystyried nad oes gan y Senedd unrhyw rôl o ran pennu safonau. Gallai hyn achosi dryswch. Byddai'n ddefnyddiol pe gellid cywiro hyn cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb i'r uchod cyn gynted â phosibl, ac erbyn 6 Mehefin fan bellaf

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gynghorydd Protheroe ac at John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, er gwybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech wneud yr un peth wrth ymateb.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.